OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2917 (Cy.242)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Rhagfyr 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Rhagfyr 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2010;

(2) deuant i rym ar 1 Ionawr 2011; a

(3) maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau amddiffyn yn erbyn cyflwyno i'r Gymuned organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu i gynhyrchion planhigion ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned(**3**); ac

ystyr "oriau gwaith yn ystod y dydd" ("*daytime working hours*") yw unrhyw amser rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**4**) yng Nghymru.

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) 2006 p.32.
(**3**) OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2010/1/EU, OJ Rhif L 7, 12.1.2010, t. 17. Mewnosodwyd Erthygl 13(d) y Gyfarwyddeb gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/89/EC (OJ Rhif L 355, 30.12.2002, t.45).
(**4**) 1971 p.80. Ynglŷn â gwyliau banc, *gweler* adran o'r Ddeddf honno 1 ac Atodlen 1 i'r un Ddeddf.

(2) Mae i'r termau hynny a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac y defnyddir y termau Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn y Gyfarwyddeb, yr un ystyron â'r termau cyfatebol Saesneg yn y Gyfarwyddeb.

### Llwythi y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â llwythi o—

(a) planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 1, ac a restrir yn Atodiad V, Rhan B o'r Gyfarwyddeb, a

(b) hadau Solanaceae, pa un a restrir hwy yn Atodiad V, Rhan B o'r Gyfarwyddeb ai peidio,

a ddygir i mewn i Gymru o wlad neu diriogaeth ac eithrio gwlad neu diriogaeth o fewn yr Undeb Ewropeaidd, neu sy'n destun cytundeb a wnaed o dan erthygl 12(6) o Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**5**).

### Ffioedd

**4.**—(1) Rhaid i fewnforiwr dalu i Weinidogion Cymru ar yr adeg y mewnforir llwyth y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo—

(a) y ffi a bennir—

(i) yng ngholofn 3 o Atodlen 1 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, ac eithrio llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion y mae is-baragraff (a)(ii) yn gymwys iddo; neu

(ii) yng ngholofn 4 o Atodlen 2 mewn perthynas â llwyth o blanhigyn neu gynnyrch planhigion a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno ac sy'n tarddu o wlad a restrir yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno; a

(b) y ffioedd a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 3 am wiriad dogfennol a gwiriad adnabod.

(2) Fodd bynnag, os cynhelir gwiriad iechyd planhigion ar lwyth y tu allan i oriau gwaith yn ystod y dydd, a hynny ar gais y mewnforiwr neu unrhyw berson arall sy'n gyfrifol am y llwyth, y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1)(a) mewn perthynas â'r llwyth hwnnw yw—

(a) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o Atodlen 1 os yw'r llwyth yn un y mae paragraff (1)(a)(i) yn gymwys iddo; neu

(b) y ffi a bennir yng ngholofn 5 of Atodlen 2 os yw'r llwyth yn un y mae paragraff (1)(a)(ii) yn gymwys iddo.

### Dirymiadau

**5.** Dirymir y Rheoliadau canlynol—

(a) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006(**6**);

(b) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2007(**7**)

(c) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007(**8**);

(ch) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2009(**9**);

(**5**) O.S. 2006/1643 (Cy.158), y gwnaed diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2006/2832 (Cy.253).
(**7**) O.S. 2007/1763 (Cy.153).
(**8**) O.S. 2007/3306 (Cy.293).
(**9**) O.S. 2009/398 (Cy.43).

(d) Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009(**10**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Rhagfyr 2010

(**10**) O.S. 2009/3140 (Cy.273).

ATODLEN 1

Rheoliad 4(1)(a)(i) a 4(2)(a)

Ffioedd Arolygu Mewnforio

| *Colofn 1*<br>*Planhigyn, cynnyrch planhigyn neu wrthrych arall* | *Colofn 2*<br>*Nifer* | *Colofn 3*<br>*Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 4*<br>*Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|
| Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd coedwigaeth atgenhedlol), planhigion ifanc mefus neu lysiau | —hyd at 10,000 o ran nifer | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 1,000 uned ychwanegol, neu ran o hynny | 0.57<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.85<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi'u torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill yn cynnwys deunydd coedwigaeth atgenhedlol (ac eithrio had) | —hyd at 1,000 o ran nifer | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 100 uned ychwanegol, neu ran o hynny | 0.35<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.52<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws) a fwriedir ar gyfer eu plannu | —hyd at 200 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 0.13<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.19<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Hadau, meinweoedd meithrin | —hyd at 100 kg o ran pwysau | 6.12 | 9.18 |
| | —am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 0.14<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.21<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu | —hyd at 5,000 o ran nifer | 14.28 | 21.42 |

| *Colofn 1* *Planhigyn, cynnyrch planhigyn neu wrthrych arall* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|
| plannu, ac nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon | | | |
| | —am bob 100 uned ychwanegol, neu ran o hynny | 0.14<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.21<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Blodau wedi'u torri | —hyd at 20,000 o ran nifer | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 1,000 uned ychwanegol, neu ran o hynny | 0.11<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.16<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Canghennau gyda deiliant, rhannau o gonifferau (ac eithrio coed Nadolig sydd wedi'u torri) | —hyd at 100 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 100 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 1.42<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 2.13<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Coed Nadolig wedi'u torri | —hyd at 1,000 o ran nifer | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob 100 uned ychwanegol, neu ran o hynny | 1.42<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 2.13<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Dail planhigion, megis perlysiau, sbeisys a llysiau deiliog | —hyd at 100 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | — am bob 10 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 1.42<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 2.13<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Ffrwythau, llysiau (ac eithrio llysiau deiliog) | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 0.57 | 0.85 |
| Cloron tatws | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | 42.84 (fesul lot) | 64.26 (fesul lot) |

| *Colofn 1* *Planhigyn, cynnyrch planhigyn neu wrthrych arall* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* |
|---|---|---|---|
| | — am bob 25,000 kg ychwanegol, neu ran o hynny | 42.84 (fesul lot) | 64.26 (fesul lot) |
| Pridd a chyfrwng tyfiant, rhisgl | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob ychwanegol 1,000 kg, neu ran o hynny | 0.57<br>Hyd at uchafswm o 114.24 | 0.85<br>Hyd at uchafswm o 171.36 |
| Grawn | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | 14.28 | 21.42 |
| | —am bob ychwanegol 1,000 kg, neu ran o hynny | 0.57<br>Hyd at uchafswm o 571.20 | 0.85<br>Hyd at uchafswm o 856.80 |
| Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn yr Atodlen hon, ac eithrio coed fforestydd | —Am bob llwyth | 14.28 | 21.42 |

## ATODLEN 2

Rheoliad 4(1)(a)(ii) a 4(2)(b)

Ffioedd Arolygu Mewnforio (Cyfraddau Gostyngol)

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| **Blodau wedi'u torri** | | | | | | |
| *Dianthus* | —hyd at 20,000 o ran nifer | Colombia | 0.42 | 0.71 | 0.63 | 1.06 |
| | | Ecuador | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1 Genws* | *Colofn 2 Nifer* | *Colofn 3 Gwlad tarddiad* | *Colofn 4 Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5 Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| | | Israel | 7.12 | 14.28 | 10.68 | 21.42 |
| | | Kenya | 3.57 | 0.71 | 5.35 | 1.06 |
| | | Twrci | 3.57 | 3.57 | 5.35 | 5.35 |
| | —am bob 1,000 uned ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.003<br><br>Hyd at uchafswm o 3.42 | 0.005<br><br>Hyd at uchafswm o 5.71 | 0.004<br><br>Hyd at uchafswm o 5.13 | 0.007<br><br>Hyd at uchafswm o 8.56 |
| | | Ecuador | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 17.14 | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 17.14 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 25.71 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 25.71 |
| | | Israel | 0.06<br><br>Hyd at uchafswm o 58.17 | 0.57<br><br>Hyd at uchafswm o 114.28 | 0.08<br><br>Hyd at uchafswm o 87.25 | 0.85<br><br>Hyd at uchafswm o 171.42 |
| | | Kenya | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 28.57 | 0.005<br><br>Hyd at uchafswm o 5.71 | 0.04<br><br>Hyd at uchafswm o 42.85 | 0.007<br><br>Hyd at uchafswm o 8.56 |
| | | Twrci | 0.03<br><br>Hyd at uchafswm o 28.57 | 0.03<br><br>Hyd at uchafswm o 28.57 | 0.04<br><br>Hyd at uchafswm o 42.85 | 0.04<br><br>Hyd at uchafswm o 42.85 |
| *Rosa* | —hyd at 20,000 o ran nifer | Colombia | 0.71 | 0.42 | 1.06 | 0.63 |
| | | Ecuador | 0.42 | 0.42 | 0.63 | 0.63 |
| | | Ethiopia | 1.42 | 0.71 | 2.13 | 1.06 |
| | | Kenya | 1.42 | 0.71 | 2.13 | 1.06 |
| | | Tanzania | 2.14 | 1.42 | 3.21 | 2.13 |
| | | Uganda | 14.28 | 3.57 | 21.42 | 5.35 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| | | Zambia | 7.14 | 3.57 | 10.41 | 5.35 |
| | — am bob 1,000 uned ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.005<br><br>Hyd at uchafswm o 5.71 | 0.003<br><br>Hyd at uchafswm o 3.42 | 0.007<br><br>Hyd at uchafswm o 8.56 | 0.004<br><br>Hyd at uchafswm o 5.13 |
| | | Ecuador | 0.003<br><br>Hyd at uchafswm o 3.42 | 0.003<br><br>Hyd at uchafswm o 3.42 | 0.004<br><br>Hyd at uchafswm o 5.13 | 0.004<br><br>Hyd at uchafswm o 5.13 |
| | | Ethiopia | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 11.42 | 0.005<br><br>Hyd at uchafswm o 5.71 | 0.015<br><br>Hyd at uchafswm o 17.13 | 0.007<br><br>Hyd at uchafswm o 8.56 |
| | | Kenya | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 11.42 | 0.005<br><br>Hyd at uchafswm o 5.71 | 0.015<br><br>Hyd at uchafswm o 17.13 | 0.007<br><br>Hyd at uchafswm o 8.56 |
| | | Tanzania | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 17.14 | 0.01<br><br>Hyd at uchafswm o 11.42 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 25.71 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 17.13 |
| | | Uganda | 0.11<br><br>Hyd at uchafswm o 114.28 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 28.57 | 0.16<br><br>Hyd at uchafswm o 171.42 | 0.03<br><br>Hyd at uchafswm o 42.85 |
| | | Zambia | 0.05<br><br>Hyd at uchafswm o 57.14 | 0.02<br><br>Hyd at uchafswm o 28.57 | 0.07<br><br>Hyd at uchafswm o 85.71 | 0.03<br><br>Hyd at uchafswm o 42.85 |

**Ffrwythau**

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| *Citrus* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Yr Aifft | 3.57 | 2.14 | 5.35 | 3.21 |
| | | Honduras | 7.14 | 10.71 | 10.71 | 16.06 |
| | | Israel | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |
| | | Mecsico | 3.57 | 3.57 | 5.35 | 5.35 |
| | | Moroco | 0.71 | 0.71 | 1.06 | 1.06 |
| | | Periw | 4.99 | 4.99 | 7.48 | 7.48 |
| | | Twrci | 0.42 | 0.42 | 0.63 | 0.63 |
| | | Uruguay | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |
| | | UDA | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Yr Aifft | 0.14 | 0.08 | 0.21 | 0.12 |
| | | Honduras | 0.28 | 0.42 | 0.42 | 0.63 |
| | | Israel | 0.08 | 0.08 | 0.12 | 0.12 |
| | | Mecsico | 0.14 | 0.14 | 0.21 | 0.21 |
| | | Moroco | 0.02 | 0.02 | 0.03 | 0.03 |
| | | Periw | 0.19 | 0.19 | 0.28 | 0.28 |
| | | Twrci | 0.01 | 0.01 | 0.02 | 0.02 |
| | | Uruguay | 0.08 | 0.08 | 0.12 | 0.12 |
| | | UDA | 0.08 | 0.08 | 0.12 | 0.12 |
| *Malus* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Ariannin | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | Brasil | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |
| | | Chile | 0.99 | 0.99 | 1.48 | 1.48 |
| | | Tsieina | 3.57 | 3.57 | 5.35 | 5.35 |
| | | Seland Newydd | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| | | De Affrica | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | UDA | 3.57 | 3.57 | 5.35 | 5.35 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |
| | | Brasil | 0.08 | 0.08 | 0.12 | 0.12 |
| | | Chile | 0.03 | 0.03 | 0.04 | 0.04 |
| | | Tsieina | 0.14 | 0.14 | 0.21 | 0.21 |
| | | Seland Newydd | 0.06 | 0.06 | 0.08 | 0.08 |
| | | De Affrica | 0.06 | 0.06 | 0.08 | 0.08 |
| | | UDA | 0.14 | 0.14 | 0.21 | 0.21 |
| *Mangifera* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Brasil | 1.42 | 7.14 | 2.13 | 10.71 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Brasil | 0.05 | 0.28 | 0.07 | 0.42 |
| *Passiflora* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Colombia | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | Kenya | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | De Affrica | 7.14 | 7.14 | 10.71 | 10.71 |
| | | Zimbabwe | 4.99 | 4.99 | 7.48 | 7.48 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Colombia | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |
| | | Kenya | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| | | De Affrica | 0.28 | 0.28 | 0.42 | 0.42 |
| | | Zimbabwe | 0.19 | 0.19 | 0.28 | 0.28 |
| *Prunus* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Ariannin | 4.99 | 4.99 | 7.48 | 7.48 |
| | | Chile | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | De Affrica | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | Twrci | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | | UDA | 7.14 | 3.57 | 10.71 | 5.35 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Ariannin | 0.19 | 0.19 | 0.28 | 0.28 |
| | | Chile | 0.05 | 5.08 | 0.07 | 0.07 |
| | | De Affrica | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |
| | | Twrci | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |
| | | UDA | 0.28 | 0.14 | 0.42 | 0.21 |
| *Psidium* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Brasil | 10.71 | 14.28 | 16.06 | 21.42 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Brasil | 0.42 | 0.57 | 0.63 | 0.85 |
| *Pyrus* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Ariannin | 2.14 | 2.14 | 3.21 | 3.21 |
| | | Chile | 4.99 | 4.99 | 7.48 | 7.48 |
| | | Tsieina | 4.99 | 4.99 | 7.48 | 7.48 |
| | | De Affrica | 2.14 | 1.42 | 3.21 | 2.13 |
| | — am bob 1,000 kg | Ariannin | 0.08 | 0.08 | 0.12 | 0.12 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

| *Colofn 1* *Genws* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Gwlad tarddiad* | *Colofn 4* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith yn ystod y dydd) (£)* | | *Colofn 5* *Ffi am bob llwyth (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd) (£)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* | *Tan 1 Ionawr 2011* | *O 1 Ionawr 2011 ymlaen* |
| | ychwanegol neu ran o hynny | | | | | |
| | | Chile | 0.19 | 0.19 | 0.28 | 0.28 |
| | | Tsieina | 0.19 | 0.19 | 0.28 | 0.28 |
| | | De Affrica | 0.08 | 0.05 | 0.12 | 0.07 |
| **Llysiau** | | | | | | |
| *Solanum melongena* | —hyd at 25,000 kg o ran pwysau | Twrci | 1.42 | 1.42 | 2.13 | 2.13 |
| | — am bob 1,000 kg ychwanegol neu ran o hynny | Twrci | 0.05 | 0.05 | 0.07 | 0.07 |

Pan fo cyfanswm unrhyw ffi yn swm sy'n llai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

## ATODLEN 3

Rheoliad 4(1)(b)

Ffioedd Arolygu Mewnforio ar gyfer Gwiriadau Dogfennol a Gwiriadau Adnabod

| *Colofn 1* *Gwiriad* | *Colofn 2* *Nifer* | *Colofn 3* *Ffi (£)* |
|---|---|---|
| Gwiriad dogfennol | Fesul llwyth | 5.71 |
| Gwiriad adnabod | Fesul llwyth | |
| | —hyd at faintioli llwyth tryc, llwyth wagen reilffordd neu lwyth cynhwysydd o faintioli cyffelyb | 5.71 |
| | —mwy na'r maintioli uchod | 11.42 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 (O.S. 2006/2832 (Cy.253)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t.1) ("y Gyfarwyddeb") sy'n gwneud yn ofynnol bod Aelod-wladwriaethau'n codi ffioedd i dalu costau'r gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion penodol o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd a nodir yn Atodiad V, Rhan B o'r Gyfarwyddeb. Mae Rheoliad 3 yn disgrifio'r llwythi y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt.

Gwneir yn ofynnol bod mewnforiwr, ar yr adeg y mewnforir llwyth y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo, yn talu i Weinidogion Cymru naill ai'r ffi am y gwiriad iechyd planhigion a bennir yn Atodlen 1 neu'r ffi yn ôl cyfradd ostyngol am y gwiriad iechyd planhigion a bennir yn Atodlen 2 (rheoliad 4(1)(a)). Mae Atodlen 2 yn cynnwys ffioedd cyfradd ostyngol sydd i ddod i rym ar 1 Ionawr 2011. Mae ffioedd uwch yn daladwy pan wneir gwiriadau y tu allan i oriau gwaith yn ystod y dydd. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol bod mewnforiwr yn talu'r ffi a bennir yn Atodlen 3 am wiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod (rheoliad 4(1)(b)).

Rhagwelir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith ar y sectorau preifat neu wirfoddol, ond ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol, gan mai effaith y Rheoliadau hyn yw newid lefel y ffioedd, i'w cysoni â'r ffioedd safonol a bennir yn y Gyfarwyddeb, neu a gytunwyd yn unol â'r Gyfarwyddeb.